Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd yng Nghymru

Canllaw i'r cyfyngiadau

Rhagfyr 2020

Rhagair y Gweinidogion

Yng Nghymru – fel yng ngweddill y byd – mae 2020 wedi bod yn flwyddyn hir ac anodd inni i gyd. Mae cymeradwyo'r brechlyn COVID-19 cyntaf yn gynharach y mis hwn, a'r addewid o fwy i ddod, ynghyd â dechrau ein rhaglen frechu yn ystod yr wythnos ddiwethaf, wedi bod yn gam gwirioneddol ymlaen yn y pandemig. Mae'n dod ag addewid o ddyfodol mwy disglair y flwyddyn nesaf.

Bydd y broses o frechu pawb yn cymryd amser; aiff peth amser heibio eto cyn inni weld manteision y rhaglen frechu hon a dyfodol heb gyfyngiadau ar ein bywydau bob dydd – yr hyn y gallem ei alw'n lefel rhybudd sero. Byddwn yn cyrraedd y cam hwnnw cyn bo hir.

Ar hyn o bryd, mae'r sefyllfa yng Nghymru yn ddifrifol iawn – mae'r coronafeirws yn bresennol ym mhob un o'n cymunedau lleol ac mae'n lledaenu'n gyflymach. Mae ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol o dan bwysau. Rhaid inni gael mesurau cryf i reoli'r feirws ac i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Mae angen i bawb helpu hefyd, nid yn unig drwy ddilyn y rheolau ond drwy wneud newidiadau bach i'w harferion a'u bywydau bob dydd a lleihau'r cyswllt sydd ganddynt â phobl eraill. Mae'r feirws hwn yn ffynnu ar gyswllt dynol – bob tro y byddwn yn treulio amser gydag eraill mae perygl y byddwn naill ai'n dal y feirws neu'n ei drosglwyddo.

Mae'r cynllun hwn yn diweddaru'r fframwaith a roddwyd ar waith gennym ym mis Mai, a gafodd ei ddatblygu pan ddechreuwyd lleddfu'r cyfyngiadau. Mae'n nodi pedair lefel rhybudd, yn unol â'r mesurau y byddwn yn eu rhoi ar waith i reoli lledaeniad y feirws a diogelu iechyd pobl, gan ddibynnu ar gyflwr coronafeirws ledled Cymru a dangosyddion allweddol eraill. Yn hollbwysig, rydym yn nodi sut a phryd y bydd symud rhwng y lefelau rhybuddio hyn yng Nghymru.

Bydd y dull gweithredu hwn yn rhoi mwy o sicrwydd i bobl a busnesau ledled Cymru o ran pa gyfyngiadau cyfreithiol fydd ar waith gan ddibynnu ar y lefel risg, a bydd hynny'n eu helpu i gynllunio at y dyfodol.

Yn sgil cyngor gan Grŵp Cynghori Gwyddonol y Deyrnas Unedig ar Argyfyngau (SAGE), mae'r dull gweithredu hwn ar gyfer Cymru yn tynnu ar yr hyn sydd wedi gweithio mewn mannau eraill yn y DU, ynghyd â'r gwersi yn sgil ein profiad ein hunain. Bwriedir i'r mesurau Cymru gyfan hyn fod mor syml, teg a chlir â phosibl. Maent hefyd yn adlewyrchu'r cyngor rydym wedi'i gael gan ein Grŵp Cyngor Technegol, sy'n cydlynu cyngor gwyddonol a thechnegol i gefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru yn ystod argyfyngau. Mae'r Grŵp wedi awgrymu mai dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer cyflwyno cyfyngiadau sydd fwyaf tebygol o fod yn effeithiol, ac y mae pobl fwyaf tebygol o'i ddeall. Fodd bynnag, os bydd tystiolaeth glir o amrywiad cyson a pharhaus rhwng rhannau o Gymru, mae modd gweithredu'r dull lefelau rhybudd yn rhanbarthol ac yn lleol.

Yn bwysicach nag unrhyw reolau, rheoliadau neu ganllawiau yw'r ffordd y mae pob un ohonom yn ymateb i'r feirws. Dim ond os byddwn ni i gyd yn gwneud ein gorau i leihau ein cysylltiad â'r feirws, drwy leihau ein cysylltiad â phobl eraill gymaint â phosibl – gartref, yn y gwaith a phan fyddwn ni'n mynd allan – y bydd mesurau a rheoliadau ar unrhyw lefel rhybudd yn llwyddo.

Lefel rhybudd 1 (risg isel)
Dyma'r lefel cyfyngiadau agosaf at normalrwydd sy'n bosibl tra mae cyfraddau heintio yn isel a mesurau ataliol eraill yn parhau ar waith, megis cadw pellter cymdeithasol a gweithio gartref.

Lefel rhybudd 2 (risg ganolig)
Mae'r lefel hon yn cynnwys mesurau rheoli ychwanegol i gyfyngu ar ledaeniad y coronafeirws. Gall y rhain gael eu hategu gan weithredu wedi'i dargedu'n fwy, a roddir ar waith i reoli achosion lluosog neu frigiadau penodol.

Lefel rhybudd 3 (risg uchel)
Dyma'r cyfyngiadau llymaf heblaw am gyfnod atal byr neu gyfnod clo. Mae'n ymateb i lefelau heintio uwch neu gynyddol lle nad yw camau gweithredu lleol yn effeithiol mwyach o ran cyfyngu ar dwf y feirws.

Lefel rhybudd 4 (risg uchel iawn)
Byddai cyfyngiadau ar y lefel hon yn cyfateb i reoliadau'r cyfnod atal byr neu'r cyfnod clo. Gellid defnyddio'r rhain naill ai fel cyfnod atal byr neu fel cyfnod clo. .

Rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau y mae llawer o bobl a busnesau yn dal i'w hwynebu o ganlyniad i'r cyfyngiadau yr ydym wedi'u cyflwyno i reoli'r coronafeirws a diogelu iechyd pobl.

Rydym yn ddiolchgar i bobl a busnesau ledled Cymru am eu hymdrechion diflino i fynd i'r afael â'r feirws hwn. Wrth inni ddechrau ar y broses o gyflwyno'r brechlyn COVID-19 ledled Cymru, mae'n briodol ein bod yn teimlo'n obeithiol, ond pwyll piau hi o hyd. Rhaid inni ddal ati i weithio gyda'n gilydd er mwyn Diogelu Cymru.

Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

Vaughan Gething AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Y Cyd-destun Strategol

Ym mis Mai, amlinellodd Llywodraeth Cymru ddull a oedd yn seiliedig ar 'oleuadau traffig' i lacio'r cyfyngiadau rheoleiddiol a oedd ar waith yn ystod ton gyntaf y pandemig (*Llacio'r Cyfyngiadau ar ein Cymdeithas a'n Heconomi: Dal i Drafod*[1]).

Roedd y dull hwn yn symud rhwng cyfyngiadau caeth a chamau coch, oren a gwyrdd mewn gwahanol feysydd o'n bywydau – er enghraifft, gweld teulu a ffrindiau, teithio yma ac acw, addysg a gofal plant. Ar y cam hwnnw yn y pandemig roedd llawer o ansicrwydd ynghylch y coronafeirws ac nid oedd effeithiolrwydd mesurau lliniaru yn hysbys. Roedd y dull yn un gofalus a bu symudiadau ar gyflymder gwahanol mewn meysydd gwahanol yn seiliedig ar y dystiolaeth orau a oedd ar gael ar y pryd.

Ym mis Awst, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y ddogfen *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws ar gyfer Cymru*[2]. Mae'n amlinellu'r dull o reoli'r coronafeirws – o atal yr haint, i gamau gweithredu lleol er mwyn rheoli brigiadau o achosion ac achosion lluosog, hyd at fesurau i Gymru gyfan.

Roedd y mesurau i Gymru gyfan yn nodi y gallai fod angen tynhau'r cyfyngiadau dros gyfnod y gaeaf, ond gydag uchelgais i'w teilwra a'u targedu'n fwy. Mae'r dull eang a nodir yn *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws* yn berthnasol o hyd, yn enwedig yr angen i bob un ohonom chwarae ein rhan mewn camau ataliol. Rydym yn credu mai camau gweithredu unigol a lleol yw'r camau gweithredu pwysicaf cyntaf y gallwn i gyd eu cymryd i ymateb i'r feirws.

Mae'r cynllun diwygiedig hwn yn nodi'n fanylach sut y bydd mesurau cenedlaethol a ddisgrifir yn *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws* yn cael eu cyflwyno mewn ffordd fwy rhagweladwy, gan ddychwelyd at egwyddorion y system goleuadau traffig.

Bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i bobl a busnesau ledled Cymru ynghylch pa gyfyngiadau cyfreithiol a roddir ar waith, yn dibynnu ar y lefel risg sylfaenol yng Nghymru a ffactorau allweddol eraill. Bydd y lefel risg hon yn newid dros amser a bydd angen i'r dangosyddion a ddefnyddir newid hefyd.

Er enghraifft, unwaith y bydd mwyafrif y bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o fynd yn ddifrifol wael yn sgil y coronafeirws wedi cael eu brechu, rydym yn disgwyl i'r pwysau ar y GIG am resymau'n gysylltiedig â'r coronafeirws fod yn llai. Gallai hyn olygu na fydd cyfanswm yr achosion sydd wedi'u cadarnhau yn ddangosydd mor ddefnyddiol o'r pwysau sydd i ddod. Bydd hi'n bwysig cydbwyso ystod o ddangosyddion gwahanol.

1 Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi: dal i drafod, Llywodraeth Cymru, 15 Mai 2020. Ar gael yn: www.llyw.cymru/llacior-cyfyngiadau-ar-ein-cymdeithas-heconomi-dal-i-drafod

2 Cynllun Rheoli'r Coronafeirws ar gyfer Cymru, Llywodraeth Cymru, 18 Awst 2020. Ar gael yn: www.llyw.cymru/cynllun-rheolir-coronafeirws-ar-gyfer-cymru

Gall mwy o gyfathrebu am y lefelau risg yng Nghymru helpu i ddarparu arwyddion i lywio ymddygiad pobl. Bydd yn cymryd peth amser i ddychwelyd i "normalrwydd" heb gyfyngiadau. Felly, yr unig ateb cynaliadwy yw i ni i gyd addasu ein hymddygiad i gyfateb i'r lefelau risg sylfaenol. Mae hyn yn golygu lleihau ein cysylltiad â phobl eraill cyn gynted ag y mae'r lefelau risg yn cynyddu. Mae hefyd yn golygu hunanynysu yn syth ar ôl datblygu symptomau.

Dewis olaf yw'r cyfyngiadau cyfreithiol a ddisgrifir yn y ddogfen hon. Nid oes unrhyw lywodraeth yn awyddus i osod cyfyngiadau fel hyn ar ryddid pobl ac ar yr economi.

Mae'n bwysig cofio y gallwn ni i gyd fod yn cario'r coronafeirws yn ddiarwybod, a dylem ymddwyn yn unol â hynny. Gellir osgoi cyfyngiadau os byddwn ni i gyd yn newid ein hymddygiad ac yn osgoi gwneud y pethau hynny a all ledaenu'r feirws. Yn anffodus, mae cyfyngiadau'n angenrheidiol pan fydd y feirws yn dechrau lledaenu. Rydym yn cydnabod mai arfau amrwd yw'r rhain, sydd efallai'n ymddangos yn annheg ar y rhai sy'n lleihau risgiau ac ar y safleoedd hynny sy'n drylwyr wrth wneud hynny. Ond nid yw'r feirws yn gwahaniaethu rhwng pobl a gall ymddangos mewn unrhyw amgylchedd. Dyma pam y mae angen dull gweithredu cyson.

Ymddygiadau

Mae datganiad ar ymyriadau anfferyllol cyn y Nadolig gan y Grŵp Cyngor Technegol[3] wedi pwysleisio mor bwysig yw hi ein bod i gyd yn mabwysiadu ymddygiadau effeithiol i fynd i'r afael â lledaeniad y coronafeirws:

- Mae'r feirws yn lledaenu pan fydd person heintiedig yn dod i gysylltiad ag un neu ragor o bobl sydd heb eu heintio. Efallai na fydd person heintiedig yn arddangos unrhyw symptomau.
- Mae'r tebygolrwydd y bydd person heintus yn trosglwyddo'r feirws i berson sydd heb ei heintio yn dibynnu ar ba mor agos yw'r cysylltiad rhwng y bobl hynny. Mae rhai amgylcheddau ac ymddygiadau yn fwy tebygol o alluogi'r feirws i drosglwyddo.
- Mae cadw pellter cymdeithasol a chwarantin yn effeithiol iawn o hyd o ran lleihau'r risg o heintio eraill, os dilynir y canllawiau yn gywir.
- Byddai rhagynysu am un cyfnod magu (10 diwrnod) yn ffordd effeithiol o ostwng eich risg o heintio eraill. Gallai hyn olygu osgoi pobl nad ydych yn byw gyda nhw am 10 diwrnod cyn ichi gwrdd â rhywun, yn enwedig os yw'n agored i niwed.
- Mae hunanynysu yn parhau i fod yn hanfodol i unrhyw un sydd â symptomau COVID-19.
- Y ffordd orau o ddiogelu aelodau hŷn o'r teulu yw osgoi heintiad posibl drwy beidio â dod i gysylltiad â nhw os oes modd, er ein bod yn cydnabod nad oes gan lawer o bobl ddewis gan eu bod yn darparu gofal i berthnasau hŷn neu'n byw ar aelwydydd sy'n pontio'r cenedlaethau. Nid yw hynny'n golygu bod cadw pobl hŷn y tu mewn yn ffordd effeithiol na derbyniol o ymateb i'r pandemig.

3 gov.wales/technical-advisory-group-statement-regarding-non-pharmaceutical-interventions-pre-christmas-period

- Mae data arolygon yn parhau i awgrymu rhywfaint o gymysgu rhwng pobl nad ydynt yn yr un aelwyd estynedig. Ynghyd â hyn, mae camddealltwriaeth o'r risgiau trosglwyddo sy'n gysylltiedig â chwrdd ag eraill. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod mwy o gymysgu o dan do yn peri risg sylweddol.
- Y lleiaf o aelwydydd ac unigolion sy'n cymysgu, y lleiaf yw'r risg drosglwyddo, derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau.

Mae tystiolaeth arolygon yn dangos bod llawer o bobl yn dweud eu bod yn cadw at y canllawiau a'r rheoliadau yng Nghymru. Mae'r camau hyn wedi cael effaith gadarnhaol i helpu i reoli'r coronafeirws. Fodd bynnag, mae angen ymdrechion mwy fyth er mwyn lleihau lledaeniad y feirws. Mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn parhau i wneud pob ymdrech i leihau ein risgiau, gan feddwl 'beth ddylen ni ei wneud', nid 'beth gawn ni ei wneud'.

Gall rhywbeth bach sy'n mynd yn groes i'r ymddygiadau hyn gael effaith fawr os bydd llawer o bobl yn gwneud yr un peth. Mae angen i bob un ohonom chwarae ein rhan.

Fel llywodraeth, byddwn yn darparu canllawiau clir ar yr hyn yr ydym yn gofyn i bobl ei wneud a pham, yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Mae'n bwysig darparu rhesymeg glir dros y cyfyngiadau a osodir. Ni fydd y dystiolaeth bob amser yn bendant wrth inni barhau i ddysgu am y coronafeirws a sut mae'n lledaenu. Rhaid inni felly gymryd gofal pan fo'r risg ar ei huchaf.

Mae cadw at yr ymddygiadau sydd wedi bod yn cael eu hannog ers misoedd lawer yn dal i fod wrth wraidd yr hyn yr ydym yn gofyn i bobl barhau i'w wneud ar gyfer eu hiechyd eu hunain ac ar gyfer pobl eraill. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Osgoi cymysgu ag aelwydydd eraill.
- Golchi dwylo'n rheolaidd a chadw pellter cymdeithasol.
- Gwisgo gorchudd wyneb pan fo'n ofynnol.
- Gweithio gartref lle medrir
- Cadw'ch cartref wedi'i awyru'n dda.

Mae dechrau'r rhaglen frechu yn erbyn COVID-19 yn llygedyn go iawn o obaith mewn blwyddyn sydd wedi bod yn anodd iawn ond nid dyma ddiwedd y pandemig. Mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn parhau i ddilyn y rheolau a lleihau ein cysylltiadau â phobl eraill yn ystod misoedd y gaeaf. Nid nawr yw'r amser i ymlacio.

Byddwn yn parhau i wneud pob ymdrech i hyrwyddo'r ymddygiadau angenrheidiol hyn a chefnogi pobl yn eu hymdrechion i ddilyn y canllawiau a'r rheoliadau sydd mewn grym unrhyw adeg benodol mewn lleoliadau gwahanol.

Fel y dywedodd ein Grŵp Cyngor Technegol[4], gallai hyn gynnwys cymorth ariannol ac ymarferol a hybu opsiynau eraill cadarnhaol yn lle gweithgareddau peryglus. Gallai hefyd gynnwys helpu i nodi sefyllfaoedd lle mae hi o bosibl yn anodd osgoi ymddygiad peryglus, gan ddod o hyd i atebion derbyniol a darparu cyngor syml a hawdd ei ddilyn. Bydd y cyngor hwn yn cael ei gydgynhyrchu gyda phartneriaid eraill pan fo'n bosibl, megis undebau llafur, cyflogwyr, byrddau iechyd, cynghorau lleol a'r heddlu. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar drafod, egluro ac annog. Bydd camau gorfodi yn ddewis olaf.

4 www.llyw.cymru/grwp-cyngor-technegol-mewnwelediad-ymddygiad-i-gefnogi-cymru-ar-ol-y-cyfnod-atal-byr

Brechlynnau, profion a'r dyfodol

Brechlynnau

Mae brechlynnau yn arf pwysig i ddiogelu pobl. Diben y brechlyn COVID-19 yw lleihau achosion o glefyd difrifol a diogelu unigolion a sefydliadau agored i niwed. Wrth i'r brechlyn gael ei gyflwyno yng Nghymru, byddwn yn dysgu llawer, gan gynnwys drwy edrych ar dystiolaeth o effeithiau'r brechlyn ar drosglwyddiad yn y gymuned, pa mor hir y mae imiwnedd yn para a sut mae grwpiau gwahanol yn ymateb, megis y rhai sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol.

Ni ddylai'r pwyslais fod ar imiwnedd torfol ar hyn o bryd. Yn hytrach, canolbwyntir ar ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed, er mwyn lleihau derbyniadau i ysbytai a marwolaethau. Dyna pam y mae Llywodraeth Cymru, fel gwledydd eraill y DU, yn dilyn cyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) a argymhellodd mai'r blaenoriaethau cyntaf ddylai fod atal marwolaethau COVID-19 a diogelu staff a systemau iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym eisoes wedi dechrau brechu'r grwpiau blaenoriaeth hyn. Mae angen cwblhau'r broses hon cyn y gallwn ddechrau darparu'r brechlyn i weddill y boblogaeth.

Rydym ar y trywydd at adferiad, ond bydd yn cymryd amser. Hyd nes y byddwn yn gwybod mwy am y brechlynnau a'u heffaith ar drosglwyddiad yn y gymuned, mae'n rhy gynnar i ystyried llacio'r cyfyngiadau. Rhaid inni i gyd barhau i addasu ein hymddygiad i leihau risgiau, ni waeth a ydym wedi cael ein brechu ai peidio. Bydd rhaid i fesurau diogelwch a rheolau fod ar waith ymhell i mewn i 2021 i'n diogelu ni i gyd.

Mae gan lawer o'r bobl a fu'n gwarchod eu hunain – y grŵp sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol – systemau imiwnedd gwannach, ni allant frwydro yn erbyn haint yn dda, ac mae'n bosibl na fyddant yn ymateb yn dda i frechlyn. Mae'n hanfodol eu bod nhw a phawb arall yn parhau i ddilyn y cyngor swyddogol megis cadw pellter cymdeithasol, golchi dwylo'n rheolaidd a gwisgo gorchudd wyneb hyd yn oed os ydynt wedi cael eu brechu.

Strategaeth brofi

Os oes gennych symptomau coronafeirws – tymheredd uchel, peswch newydd neu barhaus, colli'r gallu i flasu neu arogli neu sylwi ar newid yn y synhwyrau hynny – dylech hunanynysu cyn gynted ag y byddant yn ymddangos ac yna gael prawf.

Mae ein rhwydwaith o safleoedd profi yn dal i gynyddu a datblygu, gan olygu ei bod yn gynt ac yn haws i bawb gael prawf.

Mae person yn heintus cyn i'r symptomau ddatblygu, felly mae hunanynysu cyn gynted â phosibl yn hanfodol i atal lledaeniad y coronafeirws. Gall pobl heb symptomau hefyd drosglwyddo'r feirws, felly mae'n bwysig fod pawb y mae tîm Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru yn cysylltu â nhw yn dilyn y cyngor os gofynnir iddynt hunanynysu. Mae bellach yn ofyniad cyfreithiol yng Nghymru i hunanynysu os dyna yw cyngor Gwasanaeth Diogelu Olrhain Prawf GIG Cymru. Os ydych wedi bod mewn cysylltiad agos â rhywun sydd wedi dal y coronafeirws, mae perygl ichi ei ledaenu i eraill os nad ydych yn hunanynysu.

Er mwyn helpu'r bobl fydd yn wynebu caledi ariannol os bydd yn rhaid iddynt hunanynysu, rydym wedi cyflwyno cymorth ariannol i bobl ar incwm isel a staff gofal cymdeithasol.

Mae technoleg brofi newydd – gan gynnwys profion canlyniad cyflym, sy'n helpu i nodi coronafeirws mewn pobl heb symptomau – bellach yn cael ei chyflwyno yng Nghymru. Nid yw tua 1 o bob 3 o bobl sydd â COVID-19 yn cael symptomau a gall pobl hefyd drosglwyddo'r clefyd cyn i'r symptomau ymddangos. Drwy ddefnyddio'r profion cyflym newydd i sgrinio pobl, mae potensial i ganfod yr haint yn gynharach, gan leihau'r risg o'i drosglwyddo ymhellach. Wrth gyflwyno'r profion hyn rydym yn rhoi'r flaenoriaeth i sgrinio staff iechyd a gofal cymdeithasol.

Byddwn ni hefyd yn ystyried sut yr ydym yn defnyddio'r profion cyflym newydd hyn i leihau effaith hunanynysu ar bobl sydd wedi dod i gysylltiad ag achos positif, gan o bosibl helpu i leihau'r niwed economaidd a chymdeithasol y gall ei achosi. Mae hyn yn cynnwys y posibilrwydd o gynnal cyfres o brofion ar bobl sydd wedi dod i gysylltiad ag achos positif, gan gynnwys swigod ysgolion i leihau effaith hunanynysu ar ddysgu, bywoliaethau a lles.

Edrych tua'r dyfodol

Fel rydym wedi'i weld dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf, gall y sefyllfa newid yn gyflym. Mae cymeradwyo brechlynnau yn cynnig posibiliadau newydd a gall ddylanwadu ar ein dull o gyflwyno cyfyngiadau yn y dyfodol, gan ddibynnu ar yr hyn a ddysgwn dros yr wythnosau nesaf.

Mae technolegau profi newydd hefyd yn darparu offer newydd inni a allai gefnogi opsiynau eraill heblaw am y cyfyngiadau a nodir yn y ddogfen hon. Mae'n bosibl y bydd triniaethau newydd yn cael eu datblygu a fydd hefyd yn newid cydbwysedd y risg ac yn ein helpu i symud drwy'r lefelau rhybudd yn gyflymach.

Oherwydd hyn i gyd, byddwn ni'n adolygu'r cyfyngiadau yn fanwl ac yn rheolaidd.

Rydym yn credu y bydd y fframwaith a nodir yn y ddogfen hon yn ein helpu i lywio trwy gyfnod anodd y gaeaf sydd o'n blaenau a rhoi cynllun tymor hwy i ni ar gyfer 2021. Cawn gyfle i ailgloriannu ein dulliau gweithredu yn y gwanwyn, pan fyddwn yn gwybod llawer mwy am effaith y rhaglen frechu, sut y gallwn ni ddefnyddio profion i gefnogi ein dull gweithredu, a datblygiadau gwyddonol eraill yn ein dealltwriaeth a'n triniaeth o'r coronafeirws.

Tan hynny, byddwn yn adolygu'r fframwaith cyffredinol yn rheolaidd, fel y gallwn ni addasu'r dull gweithredu a sicrhau bod y cyfyngiadau yn parhau i fod yn gymesur â lefel y risg. Ar yr un pryd, byddwn yn ceisio sicrhau sefydlogrwydd er mwyn darparu fframwaith rhagweladwy i'n partneriaid a chynnal cysondeb, cyhyd ag y bo modd, ledled y DU gan fod gennym erbyn hyn fframweithiau sy'n cyfateb yn fras i'w gilydd.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod nad ydym yn disgwyl gallu llacio'r cyfyngiadau yn sylweddol tan y gwanwyn a'r haf yn 2021. Hyd yn oed gyda brechlynnau newydd, bydd y gaeaf yn gyfnod anodd a bydd angen i bob un ohonom wneud ein rhan er mwyn Diogelu Cymru.

Y lefelau rhybudd a beth maent yn ei olygu

Dysgu gwersi

Yn dilyn y cynnydd mewn heintiadau ledled y DU a ledled y byd drwy'r hydref, rydym wedi dysgu o'r gwahanol ddulliau a fabwysiadwyd mewn gwahanol rannau o'r DU.

Ym mis Medi a mis Hydref fe wnaethom roi cyfyngiadau lleol[5] ar waith, yn seiliedig ar y model ardal diogelu iechyd leol. Ar 23 Hydref, cyflwynwyd cyfnod atal byr 17 diwrnod, ar gyngor clir ein cynghorwyr gwyddonol a meddygol[6]. Roedd y cyfnod atal byr yn ailadrodd llawer o fesurau'r cyfnod clo. Cafodd y dull o ymdrin â'r cyfnod atal byr yng Nghymru ei lywio gan yr adolygiad o ymyriadau anfferyllol a gynhaliwyd gan SAGE, a argymhellodd cyfnod clo byr i leihau lledaeniad yr haint[7].

Yn Lloegr, cyflwynwyd dull tair haen, tan i hynny arwain at yr angen am gyfnod clo am fis ym mis Tachwedd, ac yna system gryfach o haenau. Yn yr Alban, cyflwynwyd dull yn seiliedig ar bum lefel a oedd yn cynnwys lefel 4 – cyfres o fesurau sy'n cyfateb i gyfnod clo, sydd wedi'u defnyddio mewn rhannau o'r Alban dros gyfnod o dair wythnos. Mae Gogledd Iwerddon wedi tynhau'r cyfyngiadau cenedlaethol yno, gan arwain at fersiwn o gyfnod clo, sydd wedi'i ddefnyddio ddwywaith yn ystod y misoedd diwethaf.

Mae SAGE wedi adolygu effeithiolrwydd y dulliau gwahanol hyn[8]. Yn sgil y dadansoddiad hwn, cryfhawyd yr haenau yn Lloegr ar 2 Rhagfyr. Mae dadansoddiad SAGE wedi'i ddiweddaru'n ddiweddar[9]. Mae'r Grŵp Cyngor Technegol sy'n cynghori Llywodraeth Cymru hefyd wedi edrych ar effeithiolrwydd y cyfyngiadau yng Nghymru[10]. Mae'r dadansoddiad hwn a thystiolaeth arall wedi llywio'r cyfyngiadau a fabwysiadwyd yng Nghymru ar 4 Rhagfyr a'r dull a nodir yn y ddogfen hon.

5 Cynllun Rheoli'r Coronafeirws ar gyfer Cymru, Llywodraeth Cymru, 18 Awst 2020. Ar gael yn: www.llyw.cymru/cynllun-rheolir-coronafeirws-ar-gyfer-cymru
6 www.llyw.cymru/grwp-cyngor-technegol-cyfnod-atal-byr
7 Summary of the effectiveness and harms of different NPIs, SAGE 58, 21 Medi 2020. Ar gael yn: www.gov.uk/government/publications/summary-of-the-effectiveness-and-harms-of-different-non-pharmaceutical-interventions-16-september-2020
8 The UK's 4 nations' autumn interventions, Impact of Interventions Task and Finish Group (TFG) of the Scientific Advisory Group for Emergencies (SAGE), SAGE 69, 19 Tachwedd 2020. Ar gael yn: www.gov.uk/government/publications/impact-of-interventions-tfg-the-uks-4-nations-autumn-interventions-19-november-2020
9 The UK's 4 nations' autumn interventions (update), Impact of Interventions Task and Finish Group (TFG) of the Scientific Advisory Group for Emergencies (SAGE), SAGE 70, 26 Tachwedd 2020. Ar gael yn: www.gov.uk/government/publications/impact-of-interventions-tfg-the-uks-4-nations-autumn-interventions-update-26-november-2020
10 Effeithiolrwydd Ymyriadau Anfferyllol yn yr Ardaloedd Diogelu Iechyd Lleol a'r Cyfnod Atal Byr yng Nghymru, Y Grŵp Cyngor Technegol, 13 Tachwedd 2020. Ar gael yn: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-12/technical-advisory-group-effectiveness-of-non-pharmaceutical-interventions-in-the-local-health-protection-zones-and-the-firebreak-in-wales.pdf

Dyma'r prif wersi yn sgil profiad diweddar yng Nghymru a'r DU:

- Mae'n ymddangos bod yr ymyriadau anfferyllol a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymyriadau lleol yng Nghymru yn cael llai o effaith nag ymyriadau cenedlaethol.
- Mae'n ymddangos bod effaith yr ymyriadau cenedlaethol yng Nghymru yn gwanhau dros amser ac yn mynd yn llai effeithiol.
- Mae'r cyfyngiadau haen 3 yn Lloegr a lefel 3 yn yr Alban wedi bod yn ddigon i grebachu'r epidemig mewn rhai ardaloedd – y llymaf y mesurau, y mwyaf yw'r effaith.
- Roedd effeithiau cyfyngiadau lefel is ledled y DU yn llawer llai eglur.

Yn gyffredinol, cafodd y cyfyngiadau ym mhob rhan o'r DU eu gosod ar y gweithgareddau a'r lleoliadau lle mae'r risg uchaf o drosglwyddo'r haint o ganlyniad i ymddygiad mwy peryglus. Mae hyn yn cynnwys ymddygiad lle nad yw pellter cymdeithasol yn cael ei gadw, lle mae pobl yn cwrdd â phobl eraill, lle maent o dan do mewn adeilad sydd efallai wedi'i awyru'n wael, neu lle mae pobl yn treulio llawer o amser gyda'i gilydd. Efallai mai cymharol isel yw'r risg yn y lleoliad ei hun, ond gall yr ymddygiad sy'n digwydd o ganlyniad i agor y lleoedd hynny godi'r risg.

Enghraifft gref o hyn yw'r 'noson allan', sy'n weithgaredd arbennig o beryglus gan ei fod yn cynnwys llawer o gymdeithasu mewn gwahanol leoedd, ac mae yfed alcohol yn cynyddu ymddygiadau peryglus.

Mae'n amlwg o'r cyfnod atal byr a chyfnodau clo diweddar ledled y DU eu bod yn gyfuniad arbennig o effeithiol o ymyriadau gan eu bod yn lleihau nifer yr heintiadau ac yn lleihau nifer y derbyniadau i'r ysbyty. Y cyfyngiadau 'aros gartref' hyn yw'r ymyriadau mwyaf costus yn gymdeithasol ac yn economaidd hefyd, gan eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i bobl osgoi cysylltiad ag eraill a chau llawer o'r economi.

Mae gofyn cadw cydbwysedd rhwng difrifoldeb yr ymyriadau a'u hyd. Pan fo terfyn amser ar y rhain a phan fo modd osgoi'r angen am gyfyngiadau estynedig yn y dyfodol, mae'r manteision mwy hirdymor yn debygol o fod yn drech na'r gost tymor byr.

Rheoliadau ac asesiadau effaith blaenorol

Wrth ystyried gosod lefelau rhybudd ar gyfer Cymru, mae gennym gyfres o reoliadau rydym wedi'u mabwysiadu all ddarparu cyfyngiadau sy'n cyfateb yn fras i'r rhai yn haenau Lloegr a lefelau'r Alban.

Mae'r rheoliadau a gyflwynwyd ar 4 Rhagfyr wedi'u llunio i gyd-fynd â lefel 3 yn yr Alban a haen 3 yn Lloegr. Roedd y rheoliadau a oedd ar waith yn ystod ein cyfnod atal byr yn debyg i'r rhai a gyflwynwyd ar gyfer lefel 4 yn yr Alban a'r cyfnod clo cenedlaethol diweddar yn Lloegr. Dichon mai haen 1 neu lefel 1 sydd agosaf i'n rheoliadau yn ystod yr haf ac mai haen 2 neu lefel 2 sydd agosaf i'r rhai a oedd ar waith ar ôl y cyfnod atal byr.

Drwy ddefnyddio'r rhain fel man cychwyn ar gyfer set newydd o lefelau rhybudd ar gyfer Cymru gallwn ni ystyried sut y gallai fod angen eu newid i adlewyrchu'r dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd ymyriadau anfferyllol a gwaith diweddar ar effeithiau economaidd-gymdeithasol yr ymyriadau. Rydym hefyd wedi cynnal asesiad o effaith y lefelau arfaethedig ar gydraddoldeb ac asesiad o'r effaith ar hawliau plant er mwyn llywio'r union fesurau a gynigir.

Mae'r asesiadau effaith hyn wedi dylanwadu ar bob lefel rhybudd. Yn benodol, maent wedi arwain at y newidiadau canlynol yn y lefel fwyaf caeth, sef y cyfnod atal byr neu'r cyfnod clo (lefel rhybudd 4), hyd yn oed os bydd hynny'n golygu aros ar lefel rhybudd 4 am gyfnod hwy er mwyn gwrthbwyso unrhyw gymysgu neu symudedd ychwanegol cysylltiedig:

- Cyhyd ag y bo modd, dylai pob disgybl aros yn yr ysgol neu addysg ar lefel rhybudd 4.
- Bydd addoldai yn aros ar agor gyda chamau lliniaru llym.
- Bydd gwasanaeth clicio a chasglu yn cael ei ganiatáu ar gyfer manwerthu nad yw'n hanfodol – bydd hyn yn galluogi pobl i gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau nad ydynt ar werth mewn safleoedd sydd ar agor (heb ddibynnu ar wasanaeth danfon i'r cartref). Gall hyn helpu i fynd i'r afael â materion posibl yn ymwneud â chael gafael ar nwyddau newydd fel ffonau neu gyfrifiaduron, y mae pobl yn dibynnu arnynt i gadw mewn cysylltiad ag eraill.

Beth yw'r lefelau risg?

Lefel rhybudd 1 (risg isel):

Mae'n debygol mai dyma'r agosaf at normalrwydd yr ydym yn debygol o'i gael tan yr haf a hyd nes y bydd brechlynnau wedi'u darparu yn ehangach.

Ar y lefel rhybudd hon, gallem ddisgwyl gweld:

Timau olrhain cysylltiadau yn gallu rhoi cyfrif am bob heintiad newydd sy'n cael ei gofnodi.

Lefelau isel o drosglwyddiad yn y gymuned a dim tystiolaeth o drosglwyddo ehangach.

Heintiadau cyfyngedig iawn mewn lleoliadau caeedig (megis cartrefi gofal, ysgolion, a charchardai).

Cyfraddau digwyddedd isel parhaus.

Mae'n bosibl y gellir goddef cyfraddau digwyddedd ychydig yn uwch os oes modd eu hesbonio gan ddealltwriaeth o frigiadau o achosion sy'n cael eu rheoli.

Lefel rhybudd 2 (risg ganolig):

Mae hyn yn cynnwys mesurau rheoli ychwanegol i sicrhau cyfraddau digwyddedd isel parhaus (yn gyson â lefel rhybudd 1). Gall y rhain gael eu hategu gan gyfyngiadau lleol wedi'u targedu'n fwy, a roddir ar waith gan dimau rheoli achos lluosog ac eraill i reoli achosion neu frigiadau penodol.

Ar y lefel rhybudd hon, gallem ddisgwyl gweld:

Timau olrhain cysylltiadau yn gallu ymateb i bron bob heintiad newydd sy'n cael ei gofnodi.

Gwaith Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru yn dechrau dangos tystiolaeth o drosglwyddiadau yn sgil risgiau a nodwyd yn flaenorol, er y gellir rhoi cyfrif am y rhan fwyaf o achosion.

Heintiadau'n cynyddu mewn lleoliadau caeedig, megis cartrefi gofal, ac yn y gymuned.

Clystyrau lluosog a mwy o drosglwyddo yn y gymuned yn debygol.

Lefel rhybudd 3 (risg uchel):

Dyma'r cyfyngiadau llymaf heblaw am gyfnod atal byr neu gyfnod clo. Ar y lefel rhybudd hon, nid yw'r cyfyngiadau ar lefel rhybudd 2 na chamau gweithredu lleol ategol bellach yn effeithiol o ran cyfyngu ar dwf y feirws neu ledaeniad ehangach.

Ar y lefel rhybudd hon, gallem ddisgwyl gweld:

Peidio ag ymchwilio i bob heintiad newydd.

Adnoddau'n targedu clystyrau ac achosion mewn lleoliadau risg uchel (megis cartrefi gofal).

Trosglwyddiad eang yn y gymuned sydd i'w weld yn nifer y clystyrau bach o gartrefi a chlystyrau cymdeithasol bach na ellir olrhain y cysylltiad rhyngddynt.

Effaith sylweddol ar leoliadau caeedig.

Nifer o achosion yn gysylltiedig â gweithleoedd.

Derbyniadau i'r ysbyty yn cynyddu ar drywydd a fyddai'n arwain at lefelau anghynaliadwy a chartrefi gofal â statws coch, gan ohirio rhyddhau cleifion ac achosi tagfeydd.

Cyfraddau digwyddedd mewn pobl dros 60 oed yn cynyddu.

Lefel rhybudd 4 (risg uchel iawn):

Byddai cyfyngiadau ar y lefel rhybudd hon yn cyfateb i gyfnod atal byr neu gyfnod clo.

Ar lefel rhybudd hon, gallem ddisgwyl gweld:

Twf uchel iawn neu dwf cynyddol mewn achosion a heintiadau eang mewn lleoliadau caeedig.

Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru yn blaenoriaethu'r rhai mwyaf agored i niwed, ac nid yw olrhain cysylltiadau yn ymarferol mwyach gan fod gormod o achosion.

Adolygiad epidemiolegol yn dangos lledaeniad ar hap o'r feirws ledled Cymru heb ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r hyn sy'n gyrru'r trosglwyddiad.

Tystiolaeth nad yw mesurau lliniaru cenedlaethol a lleol yn effeithiol mwyach.

Y maes iechyd a gofal cymdeithasol o dan bwysau sylweddol ac anghynaliadwy, triniaethau a drefnwyd ymlaen llaw yn cael eu canslo yn eang a therfynau capasiti wedi'u cyrraedd neu ar fin cael eu torri.

Pobl eithriadol o agored i niwed yn glinigol
Bydd cyngor i bobl a fu'n gwarchod eu hunain – pobl sy'n cael eu hystyried yn rhai agored iawn i niwed yn glinigol – yn cael eu cyhoeddi ar wahân, ar bob lefel rhybudd.

Symud rhwng lefelau

Egwyddorion

Gan adeiladu ar y gwersi gan SAGE a'n Grŵp Cyngor Technegol, gwyddom fod ymyrryd yn gynnar yn fwy effeithiol a bod ymyriadau sydd â chyfyngiad amser yn debygol o fod yn fwy effeithiol na chyfyngiadau penagored heb ddyddiad terfyn.

Roedd ein profiad cychwynnol o gyfyngiadau lleol, yn seiliedig ar fodel yr ardaloedd diogelu iechyd a'r gwersi o'r dull cynnar o gyflwyno haenau yn Lloegr yn awgrymu y gallai dull cymalog arafu lledaeniad y coronafeirws, ond nad oedd yn ddigon. Y cwbl a wnaeth y mesurau hyn oedd gohirio'r angen i gyflwyno cyfyngiadau llymach, yn hytrach nag atal y twf a lleihau heintiadau.

Roedd ein cyfnod atal byr yn effeithiol, ond nid oedd yr ymddygiadau ar ôl iddo orffen yn gyson â chadw'r cyfraddau heintio yn isel. Mae hyn yn awgrymu llacio cyfyngiadau yn raddol, er bod ein bod yn deall y risgiau a'r ymddygiadau angenrheidiol yn llawer gwell.

- Dylai unrhyw gyfnod atal byr neu gyfnod clo fod am gyfnod penodol o amser, ond mae angen cydbwyso hyn â'r lefel risg ar y pryd. Gall hynny olygu cyfnod hwy o ymyriadau i reoli'r cyfraddau heintio.
- Dylem ymyrryd yn gyflym pan fydd achosion yn cynyddu ac na ellir eu hesbonio'n hawdd, yn hytrach nag aros i drothwyon gael eu torri.
- Gall hyn olygu, er enghraifft, symud yn syth i gyfyngiadau lefel rhybudd 3 o lefel rhybudd 1 i wrthdroi twf cyflym mewn heintiadau.
- Ni ddylid symud i lawr y lefelau rhybudd hyd nes y bydd gostyngiad parhaus neu nes bydd yr heintiadau wedi'u sefydlogi ar gyfradd addas i allu symud i lawr i'r lefel rhybudd nesaf.

Codi a gostwng lefel rhybudd

Bydd y meini prawf a nodir isod yn cael eu defnyddio i helpu i asesu'r lefel risg ar gyfer gwahanol rannau o Gymru ac ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r rhain eisoes yn cael eu monitro a'u hasesu gan Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a thimau rheoli achos lluosog ledled Cymru.

Mae'r rhain wedi cael eu cymharu â'r hyn yr ydym yn ei wybod am y dulliau sy'n cael eu mabwysiadu yn Lloegr a'r Alban yn eu systemau haenau a lefelau. Mae holl wledydd y DU yn rhannu'r nod o atal y feirws gymaint â phosibl – rydym felly'n ceisio gweithredu mewn modd cyson cyn belled ag y bo modd i gyflawni'r uchelgais hwnnw.

Mae'r tabl isod yn egluro'r egwyddorion gan ddangos mai dim ond ar ôl i welliant gael ei sefydlu y byddwn ni'n symud i lawr lefel rhybudd, a hynny un lefel ar y tro.

Fodd bynnag, gellid codi'r lefel rhybudd yn gyflym a gall olygu symud i fyny mwy nag un lefel rhybudd er mwyn atal lledaeniad cyflym y coronafeirws. Ar ôl symud i fyny i lefel arall (neu lefelau eraill) byddai gostwng y lefel rhybudd yn annhebygol am rai wythnosau, gan ei bod yn cymryd tua phythefnos i weld effaith, ac amser ychwanegol wedyn i weld a yw'r newid hwnnw wedi'i gynnal.

Mae'n bosibl y bydd difrifoldeb lefel rhybudd 4 yn ei gwneud yn addas ar gyfer cyfnodau byrrach i gael effaith fer a llym cyn i'r sefyllfa olygu bod angen cyfnod hwy ar y lefel uchaf honno.

Lledaeniad y feirws a chanlyniadau iechyd	**Lefel rhybudd 1 (Risg isel)**	**Lefel rhybudd 2 (Risg ganolig)**	**Lefel rhybudd 3 (Risg uchel)**	**Lefel rhybudd 4 (Risg uchel iawn)**
Yn dirywio	**Lefel rhybudd 2/3 (codi)**	**Lefel rhybudd 3 (codi)**	**Lefel rhybudd 4 (codi)**	**Lefel rhybudd 4 (cynnal)**
Sefydlog	**Lefel rhybudd 1 (cynnal)**	**Lefel rhybudd 2 (cynnal)**	**Lefel rhybudd 3 (cynnal)**	**Lefel rhybudd 4 (cynnal)**
Yn gwella (diweddar)	**Lefel rhybudd 1 (cynnal)**	**Lefel rhybudd 2 (cynnal)**	**Lefel rhybudd 3 (cynnal)**	**Lefel rhybudd 4 (cynnal)**
Gwelliant (sefydledig)	**Lefel rhybudd 1 (gostwng)**	**Lefel rhybudd 1 (gostwng)**	**Lefel rhybudd 2 (gostwng)**	**Lefel rhybudd 3 (gostwng)**

Dangosyddion



Mae'r dangosyddion a oedd wedi'u nodi yn *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws*[11] wedi'u diweddaru â'r meysydd a fydd yn cael eu monitro i benderfynu pa lefel rhybudd sy'n berthnasol. Nid trothwyon mecanyddol yw'r rhain – maent yn egwyddorion cyffredinol, a ddefnyddir i lywio dyfarniadau cytbwys. Bydd y dangosyddion hyn yn cael eu hadolygu a'u diwygio'n barhaus pan fo angen, er enghraifft i ystyried cynnydd mewn profi torfol a'r gyfradd frechu. Byddwn yn monitro'r holl ddangosyddion hyn yn ofalus – a ffactorau perthnasol eraill – ar y cyd â gwybodaeth leol.

Lefel rhybudd 1 (risg isel)

Dangosyddion allweddol:

Cyfradd yr achosion sydd wedi'u cadarnhau yn llai na 50 fesul 100,000 o bobl dros gyfnod treigl cyfartalog o saith diwrnod (gan ddibynnu ar brofion, rheoli brigiadau lleol ac i ba raddau y mae'r feirws yn trosglwyddo yn y gymuned).

Cyfraddau'r achosion sydd wedi'u cadarnhau ar gyfer pobl dros 60 oed yn parhau'n isel.

Nid yw amcanestyniadau o gyfraddau digwyddedd achosion ar gyfer y pythefnos nesaf yn rhag-weld cynnydd sylweddol.

Positifedd profion o dan 3% dros saith diwrnod (gall y strategaeth brofi ddylanwadu ar hyn).

Mae'r rhagolwg o ganran poblogaeth Cymru yr amcangyfrifir bod COVID-19 arnynt yn llai na 0.25%.

Cyfraddau newid yn y dangosyddion uchod – mae'n bosibl y bydd cynnydd cyflym sefydledig yn arwain at godi'r lefel rhybudd heb angen cyrraedd unrhyw drothwyon penodol.

Capasiti ysbytai yn cael ei reoli'n effeithiol ac unrhyw bwysau posibl yn sgil achosion cynyddol o leiaf bump i chwech wythnos i ffwrdd.

Nid oes gan weithwyr iechyd proffesiynol lleol bryderon heb eu lliniaru (gan gynnwys unrhyw dimau rheoli achos lluosog neu dimau rheoli brigiadau).

Nid yw arweinwyr perthnasol awdurdodau lleol na phartneriaid lleol wedi codi pryderon heb eu lliniaru.

11 www.llyw.cymru/cynllun-rheolir-coronafeirws-ar-gyfer-cymru

Lefel rhybudd 2 (risg ganolig)

Dangosyddion allweddol:

Mae cyfraddau achosion sydd wedi'u cadarnhau rhwng 50 a 150 o achosion fesul 100,000 o bobl dros gyfnod treigl cyfartalog o saith diwrnod (gan ddibynnu ar brofion, rheoli brigiadau lleol ac i ba raddau y mae'r feirws yn trosglwyddo yn y gymuned).

Mae cyfraddau achosion sydd wedi'u cadarnhau, yn ôl oedran, yn awgrymu pa drywydd a gymerir (codi/gostwng lefel rhybudd).

Nid yw cyfraddau achosion sydd wedi'u cadarnhau ar gyfer pobl dros 60 oed yn awgrymu cynnydd cyflym (bydd cynnydd cyflym yn arwain at godi'r lefel rhybudd, a gostyngiad parhaus o bosibl yn arwain at ei ostwng).

Nid yw amcanestyniadau o gyfraddau digwyddedd achosion ar gyfer y pythefnos nesaf yn awgrymu cynnydd sylweddol (a allai arwain at godi'r lefel rhybudd).

Mae positifedd profion yn fwy na 3% dros saith diwrnod (gall y strategaeth brofi ddylanwadu ar hyn).

Mae'r amcangyfrif o boblogaeth Cymru sydd â COVID-19 rhwng 0.25% a 0.75%.

Cyfraddau newid yn y dangosyddion uchod. Gallai cynnydd cyflym sefydledig yn arwain at godi'r lefel rhybudd heb angen cyrraedd unrhyw drothwyon penodol.

Pryderon ynghylch capasiti ysbytai a phwysau tebygol yn sgil achosion cynyddol o leiaf bedair i bump wythnos i ffwrdd.

Pryderon gan weithwyr iechyd proffesiynol lleol yn cael eu rheoli (gan gynnwys unrhyw dimau rheoli achosion lluosog neu dimau rheoli brigiadau).

Camau lleol yn cael eu cymryd gan arweinwyr perthnasol awdurdodau lleol a barn partneriaid lleol ar risgiau codi/gostwng lefel rhybudd yn cael ei hystyried.

Lefel rhybudd 3 (risg uchel)

Dangosyddion allweddol:

Mae cyfradd yr achosion sydd wedi'u cadarnhau yn fwy na 150 o achosion fesul 100,000 o bobl dros gyfnod treigl cyfartalog o saith diwrnod (gan ddibynnu ar brofion, rheoli brigiadau lleol ac i ba raddau y mae'r feirws yn trosglwyddo yn y gymuned).

Nid yw cyfraddau achosion sydd wedi'u cadarnhau ar gyfer pobl dros 60 oed yn awgrymu cynnydd cyflym (bydd cynnydd cyflym yn arwain at godi'r lefel rhybudd, a gostyngiad parhaus o bosibl yn arwain at ei ostwng).

Nid yw amcanestyniadau o gyfraddau digwyddedd achosion ar gyfer y pythefnos nesaf yn rhag-weld cynnydd sylweddol (a allai arwain at uwchgyfeirio).

Positifedd profion yn fwy na 5% dros saith diwrnod (gall y strategaeth brofi ddylanwadu ar hyn).

Mae'r rhagolwg o ganran poblogaeth Cymru yr amcangyfrifir bod COVID-19 arnynt rhwng 0.75% ac 1%.

Cyfraddau newid yn y dangosyddion uchod. Bydd cynnydd cyflym sefydledig yn arwain at godi'r lefel rhybudd heb angen cyrraedd unrhyw drothwyon penodol.

Amcangyfrif dibynadwy o'r rhif atgynhyrchu (Rt) yn cynnwys 1 o fewn cyfwng hyder o 95%.

Mae pryderon ynghylch capasiti ysbytai a phwysau tebygol yn sgil achosion cynyddol bedair i bump wythnos i ffwrdd.

Pryderon gan weithwyr iechyd proffesiynol lleol yn cael eu rheoli (gan gynnwys unrhyw dimau rheoli achos lluosog neu dimau rheoli brigiadau).

Camau lleol yn cael eu cymryd gan arweinwyr perthnasol awdurdodau lleol a barn partneriaid lleol ar risgiau codi/gostwng lefel rhybudd yn cael ei hystyried.

Lefel rhybudd 4 (risg uchel lawn)

Dangosyddion allweddol:

Mae cyfradd yr achosion sydd wedi'u cadarnhau dros 300 o achosion fesul 100,000 o bobl dros gyfnod treigl cyfartalog o saith diwrnod (gan ddibynnu ar brofion, rheoli brigiadau lleol ac i ba raddau y mae'r feirws yn trosglwyddo yn y gymuned).

Mae cyfraddau achosion sydd wedi'u cadarnhau ar gyfer pobl dros 60 oed yn awgrymu cynnydd cyflym.

Mae amcanestyniadau o gyfraddau digwyddedd achosion ar gyfer y pythefnos nesaf yn rhag-weld cynnydd sylweddol i fwy na 500 o achosion fesul 100,000 o bobl.

Mae positifedd profion yn fwy na 10% dros saith diwrnod (gall y strategaeth brofi ddylanwadu ar hyn).

Mae'r rhagolwg o ganran poblogaeth Cymru yr amcangyfrifir bod COVID-19 arnynt dros 1%.

Mae gan amcangyfrif dibynadwy o'r rhif atgynhyrchu (Rt) gyfwng hyder is o 1 o leiaf.

Cyfraddau newid yn y dangosyddion uchod. Bydd cynnydd cyflym sefydledig wedi arwain at y lefel rhybudd hon heb o reidrwydd gyrraedd trothwyon.

Capasiti ysbytai a phwysau tebygol yn sgil achosion cynyddol mewn tair wythnos gan fynd y tu hwnt i'r capasiti.

Pryderon difrifol gan weithwyr iechyd proffesiynol lleol ynghylch rheoli materion lleol (gan gynnwys timau rheoli achos lluosog neu dimau rheoli brigiadau).

Camau lleol yn aneffeithiol ac ymgynghori ag arweinwyr awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill.

Ymyrraeth genedlaethol, ranbarthol neu leol

Bydd y lefelau rhybudd a'r mesurau a nodir isod yn caniatáu ar gyfer asesu a gweithredu ar unrhyw lefel ddaearyddol. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r dystiolaeth sydd gennym hyd yma yn awgrymu bod yr ymyriadau mwyaf effeithiol ar lefel genedlaethol. Ar hyn o bryd, mae rheoliadau ar waith ar gyfer Cymru gyfan, yn sgil y patrymau heintio yr ydym wedi'u gweld ledled Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod trosglwyddiad eang yn y gymuned yn golygu, hyd yn oed os yw rhai ardaloedd ar ei hôl hi o ran nifer yr achosion, mai mater o amser yn unig yw hi hyd nes y bydd cyfraddau heintio uchel ym mhob ardal.

Mae manteision a risgiau i gyfyngiadau amrywiol mewn ardaloedd gwahanol yng Nghymru:

- Mae cyfyngiadau cenedlaethol yn symlach ac yn haws eu deall, ond mae perygl o ymateb yn anghymesur i frigiadau lleol a lefelau heintio cynyddol mewn ardal benodol.
- Gall ardaloedd rhanbarthol fod yn anodd eu diffinio, ond gallant nodi patrymau rhanbarthol, gan fod yn fwy ymarferol ar gyfer negeseuon ac adlewyrchu ardaloedd teithio mwy realistig.
- Gall targedu ymyriadau ar lefel awdurdodau lleol neu'n is ganolbwyntio'n fwy ar fannau problemus o ran yr haint, ond gall fod yn ymateb anghymesur os bydd poblogaethau bach yn dylanwadu'n ormodol ar y dangosyddion. Gall cyfyngiadau teithio mewn ardaloedd awdurdodau lleol bach ymddangos yn anghymesur ac nid ydynt yn adlewyrchu realiti teithio arferol mewn ardal gydgysylltiedig.

Os bydd tystiolaeth glir o amrywiad parhaus rhwng rhannau o Gymru, mae'r dull a nodir yn y ddogfen hon yn caniatáu i'r lefelau rhybudd gael eu rhoi ar waith yn rhanbarthol ac yn lleol.

Dangosodd ein profiad o'r ardaloedd diogelu iechyd lleol yng Nghymru nad oedd dull wedi'i ficrodargedu yn effeithiol dros gyfnod o fwy nag ychydig o wythnosau. Cydnabuwyd hyn hefyd yn Lloegr, lle mae dull mwy rhanbarthol wedi'i fabwysiadu ar gyfer yr haenau. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod pobl yn teithio rhwng ardaloedd lleol bach ac felly mae'n anodd iawn cyfyngu ar ledaeniad y coronafeirws yn yr ardaloedd hynny lle mae symudedd yn uchel iawn. Mae'n ymddangos y gwelwyd hyn mewn rhannau o Gymru yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau lleol; pan na lwyddodd cyfyngiadau cynnar yng Nghaerffili i atal y coronafeirws rhag lledaenu i ardaloedd cyfagos. Cafodd ymyriadau wedi'u microdargedu yn Llanelli a Bangor effaith gychwynnol, ond ni wnaethant atal yr angen am gamau pellach.

Bydd ein dull o ddadansoddi'r data yn ystyried patrymau a thueddiadau rhwng ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos. Os oes tystiolaeth o wahaniaeth cyson a chlir rhwng rhai rhannau o Gymru o'u cymharu ag eraill, byddwn ni'n ystyried a fyddai dull rhanbarthol yn gweithio'n well i'r ardaloedd hynny. Gallai hyn olygu bod rhanbarth o awdurdodau lleol cyfagos – oll yn gydgysylltiedig a chanddynt batrymau heintio tebyg – yn symud i lefel wahanol i rannau eraill o Gymru. Wrth ystyried unrhyw opsiynau, byddwn ni'n ystyried y tueddiadau sylfaenol yn yr ardaloedd hynny a'r ardaloedd cyfagos, yn ogystal â barn gweithwyr iechyd proffesiynol lleol, arweinwyr lleol a phartneriaid lleol.

Cyfyngiadau rheoleiddiol ar bob Lefel Rhybudd

Byddwn yn rhoi un set o reoliadau ar waith i gwmpasu ymyriadau ar bob un o'r lefelau rhybudd a nodir uchod. Bydd set o ddarpariaethau cyffredin yn berthnasol i bob lefel rhybudd (er enghraifft, y gyfundrefn orfodi) gydag 'atodlenni' cyfreithiol ar wahân ar gyfer pob lefel rhybudd. Bydd hyn yn galluogi symud rhwng set sefydlog o reoliadau sy'n hwyluso gwaith cynllunio drwy ei gwneud yn haws rhag-weld cyfyngiadau.

Byddwn yn adolygu'n rheolaidd y data a'r wybodaeth sy'n llywio pa lefel o gyfyngiadau a fydd ar waith, gan gynnal adolygiad ffurfiol bob tair wythnos. Byddwn yn cyhoeddi diweddariadau am y dadansoddiad hwn fel bod y cyhoedd yn deall cyfeiriad y daith. Bydd hyn yn rhoi gwybod ymlaen llaw a allai gostwng lefel rhybudd fod yn bosibl yn y dyfodol os bydd amodau'n parhau i wella a sefydlogi. Bydd hefyd yn ein galluogi ni i gyfathrebu os bydd amodau'n dirywio a phan allai fod angen cyfyngiadau ychwanegol.

Bydd y darpariaethau cyffredin yn cynnwys y canlynol ar bob lefel rhybudd:

- Gwaharddiad ar drefnu digwyddiadau oni chaniateir hynny o dan y lefel berthnasol.
- Gofyniad i hunanynysu os cewch brawf positif, os bydd tîm Profi, Olrhain, Diogelu yn cysylltu â chi, neu pan fyddwch yn dychwelyd o wlad nad yw ar y 'rhestr deithio' rhyngwladol esempt.
- Cymryd mesurau ataliol mewn safleoedd rheoleiddiedig.
- Gofynion i wisgo gorchuddion wyneb.
- Canllawiau ar leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.
- Cyfundrefn a phwerau gorfodi.
- Troseddau a chosbau.

Mae'r cyfyngiadau penodol a fydd yn berthnasol ym mhob lefel rhybudd wedi'u nodi yn Atodiad A.

Cyfyngiadau ar ôl cyfnod y gaeaf

Bydd y cyfyngiadau a nodir isod ar waith yn ystod cyfnod y gaeaf. Rydym yn disgwyl i'r cyfnod hwn barhau i fod yn heriol iawn gan fod pwysau arferol y gaeaf ar y GIG yn cael eu dwysáu gan ledaeniad parhaus y coronafeirws ledled y DU.

Nid y gair olaf o bell ffordd yw'r cyfyngiadau yn y fframwaith hwn. Gallai brechlynnau, triniaethau newydd, dulliau profi arloesol neu ddatblygiadau gwyddonol eraill newid y cydbwysedd risg. Byddwn ni'n adolygu'r fframwaith rheoleiddiol yn rheolaidd, ac rydym yn disgwyl y bydd angen dull gweithredu diwygiedig ar gyfer y gwanwyn a'r haf yn 2021.

Mae angen inni fod yn realistig. Bydd y gaeaf yn heriol iawn ac mae'n debygol na fyddwn yn gallu hyd yn oed meddwl am ddigwyddiadau mawr neu weithgareddau mwy peryglus eraill tan y gwanwyn neu'r haf. Rydym yn gwybod y bydd hyn yn anodd i'r sectorau hynny sydd wedi bod â chyfyngiadau llym arnynt, sydd wedi cau am gyfnodau hir, neu sydd heb allu ailddechrau o gwbl ers y cyfyngiadau gwreiddiol ym mis Mawrth. Byddwn ni'n gweithio gyda'r sectorau hynny i lunio cynlluniau i ailddechrau gweithgarwch yn raddol yn y gwanwyn a'r haf y flwyddyn nesaf, os bydd yr amodau yn caniatáu hynny.

Atodiad A: Tabl cryno o'r cyfyngiadau rheoleiddiol ar bob Lefel Rhybudd

Mae'r tabl hwn yn rhoi crynodeb o'r mesurau a fydd ar waith ar bob Lefel Rhybudd. Y tu hwnt i'r cyfyngiadau hyn, dylai pobl a busnesau weithredu mewn ffordd gyson â'r risg sy'n gysylltiedig â phob Lefel Rhybudd. Mae Lefel Rhybudd uwch yn dynodi risg uwch. Ym mhob cam, dylai pawb feddwl am sut y gallant leihau'r risg hyd yn oed yn fwy.

	Lefel rhybudd 1 (Risg isel)	**Lefel rhybudd 2 (Risg ganolig)**	**Lefel rhybudd 3 (Risg uchel)**	**Lefel rhybudd 4 (Risg uchel iawn)**
Cyfyngiadau ar ymgynnull				
Gofyniad i aros gartref	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Oes
Cyfarfod mewn anheddau preifat	Y rheol chwech o bobl, ac eithrio plant o dan 11 oed neu aelwyd estynedig	Aelwyd estynedig yn unig	Aelwyd estynedig yn unig	Aelwyd (pobl rydych yn byw gyda nhw) neu swigen gefnogaeth yn unig
Cyfarfod o dan do (lleoliadau rheoleiddiedig, megis caffis, yn unig)	Y rheol chwech o bobl, ac eithrio plant o dan 11 oed	Y rheol pedwar o bobl, ac eithrio plant o dan 11 oed	Y rheol pedwar o bobl, ac eithrio plant o dan 11 oed	Aelwyd neu swigen gefnogaeth yn unig
Aelwydydd estynedig (swigen unigryw o'r un bobl)	Hyd at dair aelwyd	Hyd at ddwy aelwyd	Hyd at ddwy aelwyd	Swigen gefnogaeth (oedolion sengl neu rieni sengl yn ymuno ag unrhyw aelwyd arall)
Cyfarfod yn yr awyr agored	Dim mwy na 30 o bobl, ac eithrio plant o dan 11 oed a gofalwyr	Y rheol pedwar o bobl, ac eithrio plant o dan 11 oed Aelwyd estynedig (os oes mwy na 4) mewn mannau awyr agored cyhoeddus ond nid lleoliad rheoleiddiedig	Y rheol pedwar o bobl, ac eithrio plant o dan 11 oed Aelwyd estynedig (os oes mwy na 4) mewn mannau awyr agored cyhoeddus ond nid lleoliadau rheoleiddiedig	Aelwyd neu swigen gefnogaeth yn unig
Gerddi preifat	Y rheol chwech o bobl, ac eithrio plant o dan 11 oed	Y rheol pedwar o bobl, ac eithrio plant o dan 11 oed	Aelwyd estynedig yn unig	Aelwyd neu swigen gefnogaeth

	Lefel rhybudd 1 (Risg isel)	**Lefel rhybudd 2 (Risg ganolig)**	**Lefel rhybudd 3 (Risg uchel)**	**Lefel rhybudd 4 (Risg uchel iawn)**
Gweithgareddau wedi'u trefnu a chwaraeon				
Gweithgareddau o dan do wedi'u trefnu	Hyd at 50 o bobl	Hyd at 15 o bobl	Hyd at 15 o bobl (wedi'u cyfyngu gan safleoedd yn cau)	Cyfyngedig i wasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol
Gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu	Hyd at 100 o bobl	Hyd at 30 o bobl	Hyd at 30 o bobl	Ddim yn bosibl
Stadia a digwyddiadau	Digwyddiadau awyr agored (niferoedd cyfyngedig) Stadia ar agor i wylwyr (niferoedd cyfyngedig) Digwyddiadau eistedd neu symudol o dan do (niferoedd cyfyngedig)	Digwyddiadau awyr agored – cynlluniau peilot Stadia ar gau i wylwyr Digwyddiadau o dan do – cynlluniau peilot	Dim digwyddiadau Stadia ar gau i wylwyr	Dim digwyddiadau Stadia ar gau i wylwyr
Chwaraeon ac ymarfer corff	Pob un yn cael ei ganiatáu yn unol â chanllawiau a mesurau lliniaru (e.e. chwaraeon cyswllt cyfyngedig o dan do) Caniateir chwaraeon a hyfforddiant proffesiynol, elît a dynodedig	Cyfyngedig i reolau gweithgareddau wedi'u trefnu (15 o dan do, 30 yn yr awyr agored), eithriadau ar gyfer gweithgareddau plant Caniateir chwaraeon a hyfforddiant proffesiynol, elît a dynodedig	Cyfyngedig i reolau gweithgareddau wedi'u trefnu (15 o dan do, 30 yn yr awyr agored), eithriadau ar gyfer gweithgareddau plant Caniateir chwaraeon a hyfforddiant proffesiynol, elît a dynodedig	Ymarfer unigol yn yr awyr agored Caniateir chwaraeon a hyfforddiant proffesiynol, elît a dynodedig
Gweithgareddau plant o dan oruchwyliaeth	Caniateir	Caniateir	Caniateir	Ddim yn bosibl (mae eithriadau addysg a gofal plant yn parhau)

	Lefel rhybudd 1 (Risg isel)	**Lefel rhybudd 2 (Risg ganolig)**	**Lefel rhybudd 3 (Risg uchel)**	**Lefel rhybudd 4 (Risg uchel iawn)**
Busnesau a gwasanaethau				
Manwerthu nwyddau nad ydynt hanfodol	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar gau (gwasanaeth clicio a chasglu yn unig)
Gwasanaethau cyswllt agos (siopau trin gwallt, salonau ewinedd a harddwch, parlyrau tatŵs a thylino etc.)	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar gau (ac eithrio gwasanaethau meddygol a gwasanaethau cysylltiedig)
Lletygarwch (tafarndai, bwytai, caffis, bariau, clybiau i aelodau) **[Gwasanaeth wrth y bwrdd, mesurau lliniaru eraill megis casglu manylion cyswllt, a gwasanaeth tecawê ar bob lefel.]**	Caniateir i safleoedd trwyddedig weini alcohol rhwng 6am a 10pm Rhaid i safleoedd (gan gynnwys y rhai lle gellir dod â'ch alcohol eich hun) gau erbyn 10:20pm. Eithriadau cyfyngedig	Caniateir i safleoedd trwyddedig weini alcohol rhwng 6am a 10pm pan fo'n rhan o bryd sylweddol Rhaid i safleoedd (gan gynnwys y rhai lle gellir dod â'ch alcohol eich hun) gau erbyn 10:20pm. Eithriadau cyfyngedig	Dim alcohol i'w yfed ar y safle Caiff agor rhwng 6am a 6pm, ac ar gyfer tecawê ar ôl 6pm	Ar gau (heblaw am tecawê a danfon)
Llety gwyliau	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Hanfodol yn unig (ar gyfer gwaith neu resymau eraill)

	Lefel rhybudd 1 (Risg isel)	**Lefel rhybudd 2 (Risg ganolig)**	**Lefel rhybudd 3 (Risg uchel)**	**Lefel rhybudd 4 (Risg uchel iawn)**
Lleoliadau adloniant (sinemâu, neuaddau bingo, alïau bowlio, canolfannau ac ardaloedd chwarae o dan do, casinos, arcedau diddanwch, canolfannau betio i oedolion, theatrau a neuaddau cyngerdd)	Ar agor	Ar agor	Ar gau (caniateir sinemâu a theatrau awyr agored)	Ar gau
Atyniadau o dan do i ymwelwyr (gan gynnwys amgueddfeydd, orielau, atyniadau addysgol a threftadaeth, a safleoedd treftadaeth fel plastai)	Ar agor	Ar agor	Ar gau	Ar gau
Canolfannau sglefrio (at ddefnydd hamdden y cyhoedd)	Ar agor	Ar gau	Ar gau	Ar gau
Atyniadau awyr agored i ymwelwyr (gan gynnwys gerddi, amgueddfeydd, parciau antur, ffeiriau, safleoedd treftadaeth, atyniadau fferm, sŵau)	Ar agor	Ar agor	Ar gau	Ar gau

	Lefel rhybudd 1 (Risg isel)	**Lefel rhybudd 2 (Risg ganolig)**	**Lefel rhybudd 3 (Risg uchel)**	**Lefel rhybudd 4 (Risg uchel iawn)**
Cyfleusterau hamdden a ffitrwydd (campfeydd, pyllau nofio, sbas, stiwdios ffitrwydd)	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar gau
Lleoliadau ar gyfer digwyddiadau a chynadleddau	Ar agor	Ar agor ar gyfer gweithgareddau cyfyngedig (e.e. digwyddiadau peilot o dan do)	Ar gau	Ar gau
Clybiau nos a lleoliadau adloniant i oedolion	Ar gau	Ar gau	Ar gau	Ar gau
Cyfleusterau cymunedol				
Mannau addoli	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar agor
Cyfleusterau cymunedol	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar agor am resymau cyfyngedig (e.e. ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hanfodol)
Amlosgfeydd	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar agor
Llyfrgelloedd ac archifdai	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar gau i'r cyhoedd (clicio a chasglu yn unig)
Cyrtiau chwaraeon, cyrsiau golff, caeau chwarae caeedig	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar gau
Meysydd chwarae, parciau cyhoeddus	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar agor

	Lefel rhybudd 1 (Risg isel)	**Lefel rhybudd 2 (Risg ganolig)**	**Lefel rhybudd 3 (Risg uchel)**	**Lefel rhybudd 4 (Risg uchel iawn)**
Digwyddiadau bywyd				
Priodasau (gan gynnwys priodasau dyneiddiol), partneriaethau sifil ac angladdau	Seremoni – y lleoliad i osod y terfynau Derbyniad / gwylnos – terfynau gweithgarwch wedi'i drefnu (50 o dan do, 100 yn yr awyr agored)	Seremoni – y lleoliad i osod y terfynau Derbyniad / gwylnos – terfynau gweithgarwch wedi'i drefnu (15 o dan do, 30 yn yr awyr agored). Cyfyngiadau lletygarwch yn berthnasol	Seremoni – y lleoliad i osod y terfynau Derbyniad / gwylnos – terfynau gweithgarwch wedi'i drefnu (15 o dan do, 30 yn yr awyr agored). Cyfyngiadau lletygarwch yn berthnasol	Seremoni – y lleoliad i osod y terfynau Ni chaniateir derbyniad / gwylnos
Digwyddiadau bywyd eraill (gan gynnwys gwasanaethau bar mitzvah, bedyddio, neu ddigwyddiadau eraill)	Seremoni (os yw'n berthnasol) – y lleoliad i osod y terfynau Dathliad (os yw'n berthnasol) – y lleoliad i osod y terfynau Dathliad – terfynau gweithgarwch wedi'i drefnu (50 o dan do, 100 yn yr awyr agored)	Seremoni (os yw'n berthnasol) – y lleoliad i osod y terfynau Dathliad – terfynau gweithgarwch wedi'i drefnu (15 o dan do, 30 yn yr awyr agored). Cyfyngiadau lletygarwch yn berthnasol	Seremoni (os yw'n berthnasol) – y lleoliad i osod y terfynau Dathliad – terfynau gweithgarwch wedi'i drefnu (15 o dan do, 30 yn yr awyr agored). Cyfyngiadau lletygarwch yn berthnasol	Seremoni (os yw'n fan addoli) – cyfyngedig Ni chaniateir dathliad

	Lefel rhybudd 1 (Risg isel)	**Lefel rhybudd 2 (Risg ganolig)**	**Lefel rhybudd 3 (Risg uchel)**	**Lefel rhybudd 4 (Risg uchel iawn)**
Teithio				
Cyfyngiadau teithio	Dim teithio i ardaloedd lle mae nifer uchel o achosion neu dim mynediad i bobl o ardaloedd lle mae nifer uchel o achosion (lefel 3 neu uwch), heb esgus rhesymol Caniateir teithio rhyngwladol	Dim teithio i ardaloedd lle mae nifer uchel o achosion neu dim mynediad i bobl o ardaloedd lle mae nifer uchel o achosion (lefel 3 neu uwch), heb esgus rhesymol Caniateir teithio rhyngwladol	Dim teithio i ardaloedd lle mae nifer uchel o achosion neu dim mynediad i bobl o ardaloedd lle mae nifer uchel o achosion (lefel 3 neu uwch), heb esgus rhesymol Cyngor yn erbyn teithio i ardaloedd lle ceir llai o achosion yn rhannau eraill y DU (lefel 2 neu is) Cynghori yn erbyn teithio rhyngwladol	Aros gartref oni bai bod gennych esgus rhesymol Dim teithio i mewn nac allan o'r ardal heb esgus rhesymol Dim teithio rhyngwladol heb esgus rhesymol

	Lefel rhybudd 1 (Risg isel)	**Lefel rhybudd 2 (Risg ganolig)**	**Lefel rhybudd 3 (Risg uchel)**	**Lefel rhybudd 4 (Risg uchel iawn)**
Ysgolion a gofal plant (rhagofalon ychwanegol wrth symud i fyny'r lefelau, megis defnyddio gorchuddion wyneb)				
Darparwyr gofal plant	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar agor
Gofal plant anffurfiol	Caniateir	Caniateir	Caniateir	Caniateir (ond dylai fod yn hanfodol yn unig)
Ysgolion cynradd	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar agor
Ysgolion uwchradd	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar agor
Colegau, sefydliadau addysg bellach	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar agor
Sefydliadau addysg uwch	Ar agor	Ar agor – cyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb ac o bell	Ar agor – cyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb ac o bell	Ar agor – cyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb ac o bell
Unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion arbennig, ac addysg heblaw yn yr ysgol	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar agor

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41838 ISBN digidol 978-1-80082-611-3